**LLYWODRAETH CYMRU**

**Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) 2020**

# Hysbysiad Iechyd Planhigion (*Phytophthora pluvialis)* (Ardal a Ddarnodir 12)

Mae arolygydd iechyd planhigion, wedi'i benodi gan Weinidogion Cymru at ddibenion Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) 2020 (“y Rheoliadau”), wedi nodi presenoldeb *Phytophthora pluvialis* ar safleoedd yn siroedd Sir Gaerfyrddin.

Wrth arfer y pwerau a roddir gan Reoliad 17(2) o'r Rheoliadau, rwy'n cyflwyno'r hysbysiad canlynol:

## Dyfynnu

1. Gellir cyfeirio at yr hysbysiad hwn fel yr Hysbysiad Iechyd Planhigion (***Phytophthora pluvialis 12)*** (Cymru), a

2. Gan ddechrau ar 24 Ionawr 2023, mae'n dirymu ac yn disodli'r Hysbysiad Iechyd Planhigion (*Phytophthora pluvialis*) (Ardal a Ddarnodir 7) a wnaed ar 12 Ebrill 2022.

## Ardal a ddarnodir

3. Yn unol â rheoliad 17(2)(a) o'r Rheoliadau, mae'r ardal yn siroedd Sir Gaerfyrddin, o fewn y ffin a ddisgrifir yn Atodiad ac a ddangosir ar y map yn Atodiad 2 ar wefan Llywodraeth Cymru, wedi cael ei darnodi.

## Gwahardd symud planhigion a allai gael yr haint

4. Yn unol â rheoliad 17(2)(b) o'r Rheoliadau, ni chaiff unrhyw unigolyn symud unrhyw blanhigion a allai gael yr haint o'r ardal a ddarnodir wedi'i nodi yn yr hysbysiad hwn, neu oddi fewn iddi, heb awdurdod ysgrifenedig gan Arolygydd Iechyd Planhigion.


## Blanhigion perthnasol a allai gael yr haint

5. At ddibenion paragraff 4 uchod, mae planhigion a allai gael yr haint yn golygu unrhyw blanhigion ar gyfer plannu o'r genws ***Tsuga, Pseudotsuga, Pinus a Notholithocarpu*s** sydd wedi dod o'r ardal a ddarnodir neu sydd yn yr ardal honno.

**Dechrau'r gwaharddiad**

6. Mae'r gwaharddiad a nodir yn yr hysbysiad hwn yn berthnasol ar ac ar ôl **24 Ionawr 2023** nes y dywedir fel arall.

Llofnod



Bill MacDonald, Prif Swyddog Iechyd Planhigion Cymru

Llywodraeth Cymru, **17 Ionawr 2023**

## ATODIAD 1

### Disgrifiad o faint yr ardal a ddarnodir

Mae'r Ffin yn dechrau i'r De o Lanbedr Pont Steffan ym mhentref Cwmann. Ym mhwynt SN582473 mae'r ffin yn dilyn yr A482 i gyfeiriad y de-orllewin am 24km hyd nes y bydd yn cyrraedd Llanwrda yn SN713315.

Yn y pwynt hwn mae'r ffin yn gadael yr A482 ac yn ymuno â'r A40 am 34km gan deithio tuag at Caerfyrddin. Mae'r ffin yn dilyn yr A40 gan fynd heibio Llandeilo a Nantgaredig cyn cyrraedd cylchfan yn SN431212. Yma mae'r ffin yn gadael yr A40 ac yn ymuno â'r A485 am 35km gan deithio i gyfeiriad y gogledd i Lanbedr Pont Steffan gan fynd heibio Rhydcymerau, Alltwalis a Llanybydder cyn cyrraedd y pwynt cychwyn sef SN582473 yng Nghwmann.